# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 3 Mawrth 2022 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 7 Mawrth 2022 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 14 Mawrth 2022 |

---

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd Craig ab Iago
Aelod Cabinet Tai ac Eiddo

---

**PWNC – Prynu Rhyddfraint llecyn tir ger stad Maes Llwyd, Llanystumdwy.**

---

**PENDERFYNIAD**

I brynu llecyn tir ger stad Maes Llwyd, Llanystumdwy a amlinellir yn goch ar y cynllun ynghlwm, er mwyn darparu mynediad addas i safle Congl Capel sydd eisoes ym mherchnogaeth y Cyngor; a hynny ar delerau ac amodau i'w pennu gan y Pennaeth Tai ac Eiddo.

---

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig.

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Y Cynghorydd Craig ab Iago |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Lowri Cadwaladr Roberts<br>Rheolwr Stadau |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad: | 03/03/2022 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : | |

**Pwnc : Prynu Rhyddfraint llecyn tir ger stad Maes Llwyd, Llanystumdwy**

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

I brynu llecyn tir ger stad Maes Llwyd, Llanystumdwy a amlinellir yn goch ar y cynllun ynghlwm, er mwyn darparu mynediad addas i safle Congl Capel sydd eisoes ym mherchnogaeth y Cyngor; a hynny ar delerau ac amodau i'w pennu gan y Pennaeth Tai ac Eiddo.

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

Galluogi'r Cyngor i uchafu'r potensial ar gyfer datblygu tai ar ran o safle Congl Capel sydd eisoes ym mherchnogaeth y Cyngor, trwy sicrhau mynediad addas i'r safle, a thrwy hynny, gyfrannu tuag at amcanion y Cynllun Gweithredu Tai.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**

Yn dilyn cynnal adolygiad cychwynnol o diroedd ac eiddo gwag y Cyngor a allai gyfranu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun Gweithredu Tai, adnabyddwyd potensial ar gyfer datblygu tai ar gyfer cyfarch anghenion lleol ar ran o safle Congl Capel. Dylid nodi fod y potensial yma yn amodol ar sicrhau hawl cynllunio.

Nid yw'r fynedfa bresennol i safle Congl Capel yn addas ar gyfer datblygiad preswyl, ac adnabyddwyd y cyfle i brynu llecyn tir, a fyddai'n darparu mynediad i'r safle yn uniongyrchol oddi ar ffordd fabwysiedig.

Gwnaed cais am arian grant o Gronfa Rhyddhau Tir Llywodraeth Cymru ar gyfer cyfarch costau'r pryniant yn llawn, a bu'r cais yn llwyddiannus, yn amodol ar fod y gwblhau'r pryniant erbyn diwedd mis Mawrth eleni.

Nid oes hawl cynllunio wedi ei sicrhau hyd yma, ac felly bod elfen o risg i fod yn prynu'r tir cyn bo hawl cynllunio ar gyfer datblygu safle Congl Capel mewn lle, ond

mae ystyriaeth wedi ei roi i botensial datblygu'r safle yng nghyswllt polisïau cynllunio perthnasol ac ystyriaethau datblygu ymarferol.

Bydd sicrhau mynedfa addas yn ategu at werth safle Congl Capel yn yr hirdymor.

Nid oes bwriad i dalu mwy na gwerth y farchnad am y llecyn tir.

Mae gofyn i Aelod Cabinet Tai ac Eiddo gymeradwyo'r pryniant yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor dyddiedig Mai 2015.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :**

Dim.

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**

Dim.

**Prif Swyddog Cyllid:**

Gallaf gadarnhau fy mod yn fodlon fod y cyllid wedi ei sicrhau i ariannu'r pryniant ac fod cynnig grant penodol wedi cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru i'r pwrpas yma. Rwyf yn cydnabod fod risg ariannol yn bodoli yn yr ystyr fod risg o orfod ad-dalu'r grant petai'r datblygiad ddim yn digwydd, ond rwyf yn fodlon fod y risg hwn yn un rhesymol, wedi ei liniaru ac yn angenrheidiol os am wireddu'r cynllun.


**Swyddog Monitro:**

Mae'r hyn a gynnigir yn sicrhau cyfle i agor y tir dan sylw ar gyfer datblygiad tai posib i'r dyfodol er cefnogi y Strategaeth Tai. Gan fod lleoliad y tir gyferbyn a'r ffin datblygu mae gan hyn arwyddocâd o safbwynt y Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd. Cymeraf fod yr agweddau wedi eu cloriannu yn argymhelliad y Gwasanaeth. Ar y sail yma mae'r hyn a argymhellir yn ymddangos yn briodol.

**Aelod/au Lleol:**

**Y Cynghorydd Aled Evans**

Er na allaf weld bod y tir Congl Capel wedi ei glustnodi ar y cynllun datblygu lleol cymeraf bod materion cynllunio wedi eu lled ddatrys cyn bwrw mlaen ac unrhyw ddatblygiad. Byddwn yn croesawu ychydig o dai ar gyfer pobol leol ac i gael hynny i ddigwydd ymddengys bod rhaid gallu prynnu y tir y sonir amdano yn y daflen benderfyniad. Gan hynny rwy'n cefnogi prynnu'r tir hwnnw.




70 35 0 70 Meters

# Tir ger Maes Llwyd

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2020 Arolwg Ordnans 100023387 - Cyngor Gwynedd